Cynllun Datblygu Lleol 3 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Nodiadau Canllaw Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol

## Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol 3 (CDLl 3) i lywio datblygiad yn y Parc Cenedlaethol hyd at 31 Mawrth 2040. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd CDLl 3 yn disodli Cynllun Datblygu Lleol 2, sydd wedi'i fabwysiadu ar hyn o bryd.

Fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer CDLl 3, mae'r Awdurdod yn gwahodd y cyhoedd, tirfeddianwyr a datblygwyr i gyflwyno manylion safleoedd y dymunant iddynt gael eu hystyried ar gyfer datblygu. Cyfeirir at y safleoedd a nodwyd fel Safleoedd Ymgeisiol a gellir eu henwebu ar gyfer defnydd tir penodol gan gynnwys:

- Tai (gan gynnwys tai fforddiadwy)
- Cyflogaeth
- Manwerthu
- Masnachol
- Hamdden
- Seilwaith Gwyrdd / Mannau Agored
- Llety Sipsiwn a Theithwyr
- Ynni Adnewyddadwy
- Cynigion defnydd cymysg

Gall yr Awdurdod hefyd gynnig safleoedd i'w cynnwys. Caiff unrhyw gyflwyniadau o'r fath eu hasesu yn yr un modd â phob cyflwyniad safle arall. **Bydd angen i dirfeddianwyr tir sydd eisoes wedi'i ddyrannu yn y CDLl 2 presennol (gyda neu heb ganiatâd cynllunio) nad yw wedi'i ddatblygu eto lenwi'r ffurflen hon i ddiweddaru'r wybodaeth angenrheidiol os ydynt am i'w tir gael ei ystyried i'w ailddyrannu yn CDLl 3.**

**Sylwch fod hyn yn rhan o ymarfer casglu gwybodaeth ac nad oes unrhyw ymrwymiad i symud pob Safle Ymgeisiol ymlaen i Gynllun Datblygu Lleol 3 gan y bydd angen iddynt fodloni'r asesiad yn seiliedig ar feini prawf (Gweler y Fethodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol).**

**Ni fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn codi tâl am gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol. Efallai y bydd tâl am asesu gwybodaeth hyfywedd, a chysylltir â hyrwyddwyr safle ynglŷn â hyn yn ddiweddarach. (Sylwch fod yr Awdurdod yn codi tâl am lungopïo a chopïau wedi'u hargraffu o ddogfennau sydd ar gael ar-lein. Efallai y bydd cyrff eraill yn codi tâl).**

# Pwyntiau i'w Nodi

i. Bydd y wybodaeth a geir yn helpu i bennu argaeledd tir ac yn rhoi man cychwyn ar gyfer asesu addasrwydd y safle ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 3.

ii. **Ni** fydd tir a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol 2 presennol (a fabwysiadwyd yn 2020) yn cael ei gario drosodd yn awtomatig i CDLl 3. O ganlyniad, dylid cyflwyno safleoedd nad ydynt wedi'u datblygu eto fel Safleoedd Ymgeisiol hefyd.

iii. Mae'r Awdurdod am annog cymaint o Safleoedd Ymgeisiol â phosibl yn ystod y cam cynnar hwn o broses y cynllun. Mae hefyd yn hanfodol bwysig, fodd bynnag, fod cyflwyniadau'n cael eu gwneud mewn modd cadarn o ran gwybodaeth ategol. Mae'r ffurflen gyflwyno felly'n gynhwysfawr wrth geisio gwybodaeth am y safle/safleoedd ymgeisiol sy'n cael eu hyrwyddo. Drwy roi cymaint o wybodaeth â phosibl, byddwch yn helpu'r Awdurdod i werthuso ac asesu'r safleoedd, er y deallir efallai na fydd yn bosibl ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen. Mewn achosion lle mae'r Awdurdod o'r farn nad oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno, gellir gofyn am ragor o wybodaeth. Bydd angen i gyflwyniadau gwybodaeth ychwanegol fodloni dyddiadau cau llym.

iv. Creffir yn drylwyr ar y potensial i'r safleoedd a ddyrennir yng Nghynllun Datblygu Lleol 3 gael eu cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun (1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2040) drwy'r broses Archwilio. Dylai cyflwyniadau Safle Ymgeisiol ddod gyda thystiolaeth gywir a chredadwy i ddangos bwriad y tirfeddiannwr/datblygwr i ddatblygu'r safle, a digon o ddata i ganiatáu i asesiad cadarn gael ei wneud, gan gynnwys cyfraniadau tai fforddiadwy, seilwaith cymunedol a hyfywedd ariannol y datblygiad.

v. Gellir prynu cynlluniau Arolwg Ordnans ar-lein drwy Borth Cynllunio Cymru neu wefannau'r Arolwg Ordnans neu o ffynonellau eraill, gan gynnwys siopau llyfrau. Hefyd, gellir defnyddio mapiau CDLl 2 presennol ac maent ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Awdurdod: Cynllun Datblygu Lleol 2 - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

vi. Bydd safleoedd a gyflwynir yn cael eu rhestru mewn **Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol** a'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir (disgwylir i hyn ddigwydd yn Ionawr 2027). Pan fydd y Cynllun yn cyrraedd y cam Adneuo, bydd y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn dogfennu tystiolaeth yr Awdurdod ac yn dod i'r casgliad a yw safleoedd penodol wedi'u cynnwys neu wedi'u heithrio o CDLl 3.

vii. Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn gosod cyfyngiadau ar sut y gall yr Awdurdod gadw a defnyddio eich data personol. Bydd unrhyw ddata personol a ddatgelir yn cael ei brosesu yn unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd.

# Llenwi'r Ffurflen

Cwblhewch yr **holl** gwestiynau os yn bosibl. Os nad oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno, gall yr Awdurdod ofyn iddi gael ei rhoi er mwyn iddo allu ystyried y safle yn briodol. Bydd yn bwysig sicrhau bod hyn yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni gofynnol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 5.00pm ar 27 Ebrill 2026, drwy'r post neu e-bost i devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

## 1. Manylion y Safle - Beth i'w gynnwys yn eich cyflwyniad

Rhaid i'r wybodaeth ofynnol ar gyfer pob cyflwyniad i'w ystyried gynnwys:

- Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol wedi'i chwblhau. Rhaid llenwi ffurflen newydd ar gyfer pob safle gwahanol a gyflwynir.

- Cynllun cyfredol o'r safle (yn ddelfrydol ar sylfaen AO, graddfa 1:1250 neu 1:2500) gyda'r safle wedi'i amlinellu'n GOCH gyda llinell LAS wedi'i thynnu o amgylch unrhyw dir sy'n ffinio'n uniongyrchol â'r tir sydd o dan yr un berchnogaeth.

- Unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r safle a fyddai'n ddefnyddiol wrth ystyried ei addasrwydd i'w ddatblygu.

- Maint y safle – yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol 2 presennol, bydd tir yn cael ei ddyrannu ar gyfer safleoedd o 5 neu fwy o unedau preswyl. Mae hyn yn cyfateb yn fras i 0.15 hectar (0.37 erw) o faint. Ni fydd safleoedd sy'n annhebygol o ddarparu ar gyfer 5 neu fwy o dai yn cael eu cario ymlaen fel safleoedd ymgeisiol i'r cam asesu nesaf. Mae Cymru'r Dyfodol yn gofyn i ddatblygiadau newydd mewn ardaloedd trefol anelu at ddwysedd o 50 annedd yr hectar (net). Er mwyn pennu capasiti'r safle, bydd pob safle yn cael ei asesu yn seiliedig ar ddwysedd gros dangosol o 30 tŷ yr hectar. Mae arwynebedd datblygadwy gros yn cyfeirio at gyfanswm arwynebedd safle y gellir ei ddatblygu, ac mae arwynebedd datblygadwy net yn cyfeirio at y gyfran o'r safle yr adeiledir arni (gan eithrio ffyrdd, mannau agored ac ati).

- Dylai safleoedd ar gyfer cynigion ar wahân i dai fod yn o leiaf 0.15 hectar o faint.

- Dylai Safleoedd Ymgeisiol a gynigir at ddefnydd cymunedol ond nad ydynt o dan berchnogaeth gymunedol gael eu cefnogi â thystiolaeth ynghylch tebygolrwydd, e.e. pa mor debygol yw hi y bydd y tirfeddiannwr yn gwerthu neu'n rhyddhau'r tir neu a yw'r cyllid angenrheidiol ar gael neu wedi'i addo.

## 2. Hanes Defnydd Tir/Cynllunio

**Adeiladau Presennol** – os nad yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio, byddai'n ddefnyddiol rhoi rhai manylion byr am ei gyflwr – a yw'n adfail, a oes ganddo do, a ellir ei ddefnyddio yn ei gyflwr presennol ac ati.

**Caniatâd cynllunio** – gellir gofyn am fanylion ceisiadau cynllunio gan yr Awdurdod. Cysylltwch

â'r tîm Polisi Strategol drwy ffonio'r brif swyddfa yn Noc Penfro neu e-bostio devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

## 3. Perchnogaeth y Safle

**Perchnogaeth y safle** – bydd angen gwybod a yw'r sawl sy'n cynnig y Safle Ymgeisiol yn berchen ar y safle a gyflwynir. Dylid rhoi manylion am bob person sydd â pherchnogaeth gyfreithiol neu fuddiant yn y safle a natur eu perchnogaeth e.e. perchennog, cydberchennog, trawsgludiad/hawddfraint cyfreithiol.

## 4. Argaeledd Safle

**Cyfamodau cyfreithiol** – dylid esbonio manylion unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol, megis cyfamodau sy'n gysylltiedig â'r tir a allai gyfyngu ar ddatblygiad neu atal datblygiad, ynghyd â manylion am sut y byddant yn cael eu goresgyn.

**Buddiant datblygwr** – dylid nodi ai cynigydd y safle yw datblygwr arfaethedig y safle, neu a oes unrhyw drafodaethau wedi digwydd gyda datblygwyr posibl. Rhowch fanylion am statws y trafodaethau ac unrhyw gytundebau y gellid bod wedi ymrwymo iddynt. Os yw'r safle wedi cael ei farchnata, nodwch am ba mor hir, ynghyd â manylion unrhyw ddiddordeb hyd yma a'r defnydd sy'n cael ei farchnata. Os yw'r safle yn y broses o gael ei werthu, nodwch a yw'r prynwyr yn ymwybodol ac yn gefnogol o'r cyflwyniad safle ymgeisiol. Os yw gwybodaeth yn fasnachol sensitif, nodwch hyn yn glir.

**Ymchwiliadau neu arolygon safle** – dylid rhoi manylion unrhyw ymchwiliadau neu arolygon safle sy'n ymwneud ag arolwg ecolegol o'r safle, asesiad canlyniadau llifogydd neu arolygon safle-benodol eraill.

## 5. Hyfywedd Safle

**Hyfywedd y Safle** – dylid rhoi manylion am asesiad hyfywedd datblygu cychwynnol y safle a gynigir i'w ddatblygu. Dylai'r safle a gynigir fod wedi ystyried y costau sylfaenol sy'n gysylltiedig â datblygu i benderfynu a fydd y safle'n hyfyw, gan ystyried costau tir, costau adeiladu, tai fforddiadwy a gofynion adran 106 yn seiliedig ar y polisïau CDLl 2 presennol a'r costau gwerthu a ragwelir. Os bydd y safle'n symud ymlaen trwy hidlydd cychwynnol cam 1 ac asesiad safle manwl cam 2, gofynnir am ragor o fanylion am hyfywedd y safle yng ngham 3.

## 6. Hygyrchedd

**Hawliau Tramwy** – mae'r map hawliau tramwy cyhoeddus diffiniol ar gael ar wefan Cyngor Sir Penfro

**Mannau Agored** – dangosir llawer o fannau agored ar fap cynigion y Cynllun Datblygu Lleol 2 presennol. *(Sylwch nad yw pob un o'r mannau agored a ddangosir ar gael at ddefnydd y cyhoedd bob amser).* Hefyd ystyriwch dir mynediad agored, traethau neu ardaloedd eraill lle mae gan y cyhoedd fynediad yn gyffredinol.

**Cyfleusterau Cymunedol** – gall y rhain gynnwys, er enghraifft: siop gyfleustra, swyddfa bost,

maes chwaraeon, ysgol gynradd, tafarn, neuadd gymunedol a man addoli.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus** – mae manylion llwybrau bysiau a threnau ac arosfannau rheolaidd ar gael ar wefannau Cyngor Sir Penfro a Trafnidiaeth Cymru.

**Mapiau Teithio Llesol** – mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cynhyrchu mapiau o rwydweithiau cerdded a beicio yn eu hardal, a elwir yn Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol, sydd ar gael i'w gweld yn MapDataCymru.

## 7. Amgylchedd

**Safleoedd Tir Llwyd/Maes Glas** – gellir dod o hyd i wybodaeth am dir a ddatblygwyd yn flaenorol (neu dir llwyd) yn rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru, paragraffau 3.55 i 3.56.

Mae **Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (2025)** yn darparu polisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygiadau yr effeithir arnynt gan risg llifogydd ac mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, sy'n cael ei ddiweddaru gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn rhoi trosolwg gofodol o ardaloedd risg llifogydd.

Cyfeiriwch hefyd at y Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol ar gyfer yr ardal:

- Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 (ar gyfer yr ardal o Benrhyn Santes Anne i Poppit)
- Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 (ar gyfer yr ardal o Benrhyn Santes Anne i Bentywyn)

Mae'r dogfennau hyn yn nodi potensial llifogydd presennol a phosibl ar gyfer rhannau o'r arfordir, gan ystyried newid hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr.

**Dalgylchoedd Dŵr Croyw ACA Morol Sydd Angen Niwtraliaeth Maethynnau:** Mae CNC wedi nodi rhannau o'r Parc Cenedlaethol (gan gynnwys ardaloedd sy'n draenio i ddyfrffordd Aberdaugleddau Fewnol) fel rhai yr effeithir arnynt gan broblemau nitrogen morol. Gweler map gofodol yma: https://mapdata.llyw.cymru/layers/geonode:nrw_marice_sac_req_nit_neut.

Bydd unrhyw ddatblygiad sydd wedi'i leoli o fewn y dalgylch a nodwyd sy'n arwain at gynnydd mewn gollyngiadau nitrogen yn uniongyrchol i neu o fewn corff dŵr Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD) Aberdaugleddau Fewnol yn cael ei sgrinio am gynnydd mewn gollyngiadau maethynnau. Mae rhagor o wybodaeth am ganllawiau cynllunio interim CNC ar gael yma: Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i Awdurdodau Cynllunio ar gyfer Ceisiadau Cynllunio sy'n Effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n Sensitif i Faethynnau

I gael rhagor o fanylion am gyflwr ein nodweddion morol ac amcanion cadwraeth diwygiedig CNC, cyfeiriwch at:

- Asesiadau cyflwr ar gyfer safleoedd morol Ewropeaidd (SME) Cymru
- Cyngor cadwraeth ar gyfer safleoedd morol Ewropeaidd (Rheoliad 37)

**Dynodiadau hanesyddol, archaeolegol neu dirwedd** – gall y rhain gynnwys – Arfordir Treftadaeth, Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Ardaloedd Tirwedd Hanesyddol

Gall y dogfennau canlynol hefyd fod yn ddefnyddiol ac maent ar gael ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol –

- Canllawiau Cynllunio Atodol Cymeriad y Dirwedd (2020)
- Diweddariad Aberllydan (2008), Dinbych-y-pysgod, Dale, Dinas Cross (2014), Lydstep, Ystagbwll, Rosebush, Nanhyfer (2016), Trefdraeth a Lawrenni (2017) yr Astudiaeth Capasiti Aneddiadau (2007).

**Safleoedd dynodedig** – i benderfynu a allai'r safle ymgeisiol a gynigir effeithio ar safle dynodedig, edrychwch ar MapDataCymru a Mapiau Cynigion a Chyfyngiadau'r Cynllun Datblygu Lleol 2 mabwysiedig. Rhowch fanylion ynghylch a yw'r safle ymgeisiol yn debygol o effeithio ar safle dynodedig, ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru a gynigir ac astudiaethau neu arolygon perthnasol sydd wedi'u cynnal. Mae Polisi Cynllunio Cymru (ffigur 13) yn nodi dynodiadau statudol fel: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd Ramsar. Gall dynodiadau anstatudol gynnwys: Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol.

**Dynodiadau Hanesyddol, Archaeolegol neu Dirwedd** – mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig, Tirweddau Hanesyddol (sydd wedi'u cynnwys yn Nodweddion Tirweddau Hanesyddol a'r Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru), ac olion archeolegol, gan gynnwys Henebion Cofrestredig. Gallwch weld y dynodiadau hyn yn MapDataCymru. Gallwch ofyn am ragor o wybodaeth gan Heneb neu Cadw. Dylid darparu manylion am sut y byddai'r safle arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r dynodiadau.

**Golygfeydd** – rhowch fanylion am leoliadau lle gellir gweld y safle; p'un a yw'n weladwy o bellter hir neu o olygfannau penodol fel Llwybr yr Arfordir neu fannau uchel. Dylid hefyd gynnwys golygfeydd presennol i neu drwy'r safle sy'n cynnwys nodweddion diffiniol penodol neu nodweddion pwysig.

**Halogiad** – dylid rhoi manylion am unrhyw halogiad tir a ffynhonnell bosibl yr halogiad, os ydych chi'n ei gwybod, ynghyd â manylion adfer hyfyw. Mae'r wefan ganlynol yn cynnig gwybodaeth am safleoedd halogedig https://www.gov.uk/contaminated-land/overview Sylwch y gall safleoedd gael eu halogi drwy ddefnydd neu ddefnydd blaenorol ar y tir neu ar dir ger y safle.

**Dosbarthiad Tir Amaethyddol** – Mae Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 3.58) yn dosbarthu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas fel graddau 1, 2 a 3a o'r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol (DTA). Dylech roi manylion am radd DTA y safle. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/dosbarthiad-tir-amaethyddol

Mae map Rhagweld y DTA ar gyfer Cymru yn seiliedig ar egwyddorion y System Dosbarthiad Tir Amaethyddol a gellir ei weld yn MapDataCymru: Map Rhagweld

Dosbarthiad Tir Amaethyddol (DTA) 2 | MapDataCymru

**Sefydlogrwydd Tir / Risg Mwyngloddio** – Mae'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (yr Awdurdod Glo gynt) yn diffinio tir yn y maes glo fel Ardal Datblygu Risg Isel neu Ardal Datblygu Risg Uchel (gweler y map). Mewn Ardal Datblygu Risg Uchel mae nodweddion mwyngloddio penodol wedi'u cofnodi ar yr wyneb neu ddyfnder bas y nodir eu bod yn peri risg i sefydlogrwydd wyneb. Bydd yr Awdurdod yn cysylltu â'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio, ac mae'n debygol y bydd angen i'r sawl sy'n cynnig y safle gael Asesiad Risg Mwyngloddio.

## 8. Seilwaith, Cyfleustodau a Chyflawnadwyedd

**Seilwaith a Gwasanaethau** - bydd angen i chi gysylltu â'r darparwyr cyfleustodau –

- Dŵr a Charthffosiaeth – Mae Dŵr Cymru yn gweithredu gwasanaeth cyn cynllunio. Sylwch fod Dŵr Cymru yn codi ffi o £97.48+TAW am y gwasanaeth hwn. Gallwch chi ddod o hyd i fanylion yn: https://developers.dwrcymru.com/cy-gb/applications/planning/pre-planning
- Trydan a Nwy – Western Power https://www.westernpower.co.uk/
- Telathrebu – British Telecommunications neu ddarparwyr eraill

**Mynediad i'r Safle** – Os yw mynediad i'r safle yn uniongyrchol o Gefnffordd, bydd angen i chi gysylltu â'r asiantaeth Cefnffyrdd - Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) | Traffig Cymru

Am faterion eraill yn ymwneud â phriffyrdd, cysylltwch ag adran Rheoli Datblygu Peirianneg Cyngor Sir Penfro.

**Cyflawnadwyedd** – creffir ar hyn yn drylwyr drwy'r broses Archwilio i sicrhau bod safleoedd a ddyrennir yn y Cynllun Newydd yn cael eu dwyn ymlaen i'w datblygu. Dylech gynnwys yma yr holl wybodaeth i ddangos pryd y gellir cyflawni'r safle. Mae gwybodaeth a allai helpu'r Awdurdod i ddangos ymrwymiad i ddatblygu'r safle yn cynnwys cysylltu â darparwyr seilwaith fel Dŵr Cymru, yr Awdurdod Priffyrdd ac ati; a oes unrhyw waith dichonoldeb wedi'i wneud; trafodaethau gyda'r Gymdeithas Dai ar gyfer darparu tai fforddiadwy ac ati. Byddai manylion am brofi'r farchnad, datblygwyr sydd â diddordeb a buddsoddwyr hefyd yn ddefnyddiol.

## 9. Cynaliadwyedd Safle

Mae'r rhestr o ganolfannau presennol wedi'u diffinio ar hyn o bryd yn CDLl2 (gweler Polisïau 2-6):
https://www.pembrokeshirecoast.wales/wpcontent/uploads/2024/01/LDP-Text-for-Adoption-Web.pdf

Sylwer, gallai'r canolfannau hyn newid pan fydd yr Awdurdod yn adolygu ei hierarchaeth aneddiadau ar y cam Strategaeth a Ffefrir.

**Cynaliadwyedd** – mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ar Gynaliadwyedd ym Mholisi Cynllunio Cymru. Yn benodol, gweler paragraffau 3.41 i 3.52 sy'n ymwneud â strategaeth aneddiadau cynaliadwy a lleoli datblygiad newydd.

## 10. Materion Cymunedol

**Materion Cymunedol** – mae rhestr o gysylltiadau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned ar gael ar wefan Cyngor Sir Penfro –
Rhestr o wefannau cynghorau tref a chymuned - Cyngor Sir Penfro

# Beth sy'n Digwydd Nesaf?

- Bydd rhif cyfeirnod unigryw yn cael ei roi i bob cyflwyniad safle.
- Byddwn ni'n cydnabod ein bod wedi derbyn pob safle rydych chi'n ei gyflwyno.
- Bydd manylion y safle yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol.

***Sylwch na ellir trin cyflwyniadau yn gyfrinachol.***

Bydd eich manylion yn cael eu hychwanegu at restr gyswllt Cynllun Datblygu Lleol 3 yr Awdurdod. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi am fwy o fanylion neu wybodaeth am eich safle. Efallai y byddwn am ymweld â'ch safle a byddwn yn cysylltu â'r tirfeddiannwr am ganiatâd i wneud hynny. Bydd pob safle yn cael ei asesu a byddwch chi'n cael gwybod am ganlyniad yr asesiad hwnnw fel rhan o Ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol (disgwylir i hyn ddigwydd rhwng Ionawr a Mawrth 2027).

# Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyniadau

Er mwyn i Safleoedd Ymgeisiol gael eu hystyried fel rhan o broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, rhaid dychwelyd y ffurflen gyflwyno a'r cynllun cysylltiedig erbyn 5.00pm ar 27 Ebrill 2026, drwy'r post neu drwy e-bost i cynlldatb@arfordirpenfro.org.uk

# Rhagor o Wybodaeth a Chysylltiadau

I gael rhagor o gymorth gyda'r broses Safleoedd Ymgeisiol neu Gynllun Datblygu Lleol 3 yn gyffredinol:

💻 ewch i'n gwefan
🖂 e-bostiwch cynlldatb@arfordirpenfro.org.uk neu
☎ cysylltwch â'r tîm Polisi Strategol yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol ar 01646 624800.